**CABINET - DYDD MAWRTH, 14 IONAWR 2025**

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 14 IONAWR 2025 14:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HM Williams | E L P Caparros | P Davies | M J Evans |
| M Jones | | | |

Presennol – O Bell

| | |
|---|---|
| N Farr | J Gebbie |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Anya Richards | Group Manager - Communications and Public Affairs |
| Oscar Roberts | Business Administrative Apprentice - Democratic Services |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

## 418. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19/11/2024 a 10/12/2024 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 419. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Ysgol Heronsbridge a Harwood House - Caffael

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cytunwyd i'r Cabinet:<br><br>• Gymeradwyo'r strategaeth gaffael ar gyfer dylunio ac adeiladu'r cynllun ysgol newydd;<br>• Rhoi cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â thendro'r cynllun; Tudalen 33<br>• Rhoi cymeradwyaeth i gynnwys y ddarpariaeth breswyl arbenigol i blant (Harwood House) yn y tendr fel opsiwn ar wahân, gan ganiatáu i'r cynllun gael ei gynnwys neu ei eithrio unwaith y bydd contractau'n cael eu dyfarnu, hyd nes y bydd y cyllid cyfalaf gofynnol yn cael ei gadarnhau;<br>• Nodi y bydd y Cabinet yn cael adroddiad yn y dyfodol cyn dyfarnu'r prif gontract adeiladu, sy'n nodi'r sefyllfa o ran costau a'r gyllideb; a<br>• Nodi y bydd y Cabinet yn cael adroddiad yn y dyfodol i addasu dyddiad agor yr ysgol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 420. Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol ac Ymweld Annibynnol i Blant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cytunwyd i'r Cabinet:<br><br>• Gymeradwyo'r CBSP yn ymrwymo i gytundeb cydweithio rhanbarthol gyda CBSRhCT a CBSMT ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth ac ymweld annibynnol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc;<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid a Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, gytuno ar delerau'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol ac unrhyw gytundebau ategol ac i drefnu gweithredu'r cytundebau hynny ar ran y Cyngor.<br>• Cymeradwyo hepgor dan Reol Gweithdrefn Gontractau 3.2.12 ar gyfer CBSRhCT i gaffael eiriolaeth a gwasanaeth ymweld annibynnol i blant a phobl ifanc gan gynnwys ymrwymo i gontract rhanbarthol ar ran y Cyngor a nodi y bydd y partïon yn cytuno ar gymeradwyo dyfarnu unrhyw gontract trwy'r trefniant llywodraethu a ragnodir gan y cytundeb cydweithredu rhanbarthol unwaith y bydd y broses gaffael wedi'i chwblhau; a<br>• Dirprwyo awdurdod i Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynrychioli a gwneud penderfyniadau ar gyfer CBSP fel rhan o'r Bwrdd Prosiect Rhanbarthol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 421. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 i 2028-29

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cytunodd y Cabinet i gyflwyno ar gyfer ymgynghori â'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, gyllideb flynyddol 2025-26 a datblygu SATC 2025-26 i 2028-29, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2024. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 422. Monitro Cyllideb 2024-25 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 3

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Cabinet y sefyllfa refeniw ragamcanol ar gyfer diwedd blwyddyn 2024-25. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 423. Diweddariad i Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>• Cymeradwyodd y Cabinet y diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a amlinellir yn Atodiad 1;<br>• Nododd y Cabinet y bydd adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig yn y Cyfansoddiad, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 2. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 424. Gwaith Brys/Argyfwng i Greu Ceuffos ar yr A4061 Bwlch-y-Clawdd Road, Nantymoel yn dilyn Tirlithriad yn ystod Storm Bert, 24 Tachwedd 2024

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Cabinet yr eithriad rhag y gofyniad i ofyn am ddyfynbrisiau, yn unol â Rheol 3.1.6 y Rheolau Gweithdrefn Gontractau. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 425. Darparu Gwasanaethau Diogelwch ar y Traeth ac yn y Dŵr mewn partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Y Badau Achub (RNLI)

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>• Gohiriodd y Cabinet yr eitem hon i'w cyfarfod nesaf gan eu bod yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 426. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 427. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nid oedd yr eitemau canlynol i'w cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 428. Cymeradwyo'r Cofnodion Wedi'u Heithrio

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 19/11/2024 a 10/12/2024 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 429. Adroddiad Eithrio - Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Roedd yr eitem hon wedi'i heithrio. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

## 430. Cymeradwyaeth Llofnod Cytundeb Uned Gymorth SIMS (UGS) i atal Rhannau Perthnasol Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor (RhGG)

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Roedd yr eitem hon wedi'i heithrio |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14/01/2025 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch:

Rhan 1
Rhan 2

Daeth y cyfarfod i ben am 17:02